**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Betws**
**Heol Betws**
**Rhydaman**
**SA18 2HE**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd y Betws wedi ei lleoli ym mhentref Betws ar gyrion de-orllewin Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin. Mae 77 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o oedran Derbyn i Flwyddyn 6, ac mae’r rhan fwyaf yn dod o’r ardal leol gyda chanran fach yn dod o Rydaman a’r ardal wledig oddi amgylch.

Dynodwyd yr ysgol fel ‘ysgol sy’n trosglwyddo’ gan yr awdurdod lleol. Golyga hyn mai prif gyfrwng yr addysgu yn y Cyfnod Sylfaen yw’r Gymraeg, tra yng nghyfnod allweddol 2, mae’r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg.

Disgrifir yr ardal fel un ddifreintiedig ac o amddifadedd cymdeithasol. Mae 43% o’r disgyblion wedi’u cofrestru fel rhai â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a Chymru. Saesneg yw iaith cartref dros 97% o’r disgyblion. Daw bron pob un o’r disgyblion o gefndir ethnig Gwyn Prydeinig.

Mae 49% o’r disgyblion wedi eu hadnabod fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn llawer uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym Medi 2004.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Betws yn 2012-2013 yw £4,002. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £2,878. Mae Ysgol Gynradd Betws yn safle 35ain o'r 108 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- ansawdd yr addysgu yn gyffredinol dda;
- disgyblion yn meddu ar agweddau cadarnhaol at waith ac yn gweithio'n gynhyrchiol yn y gwersi;
- bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais;
- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg o oed cynnar;
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar; a bod
- y ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel, gyda threfniadau effeithiol i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer unigolion a grwpiau.

Fodd bynnag:

- yn gyffredinol, nid yw perfformiad yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg, yn enwedig yn y Gymraeg;
- nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu yn estynedig yn y Gymraeg, ac nid ydynt yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg ddigon mewn pynciau eraill;
- mae'r diffyg cynllunio i sicrhau dilyniant yn y medrau yn amharu ar y cynnydd a wna'r disgyblion yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm; ac
- mae gormod o anghysondeb yn y modd y mae athrawon yn defnyddio asesu i helpu disgyblion i wella ansawdd eu gwaith.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gweledigaeth glir arweinwyr yr ysgol yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda'r holl staff;
- adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn nodi'r meysydd i'w gwella a blaenoriaethau gwella priodol wedi eu pennu;
- cydweithio effeithiol rhwng holl staff yr ysgol;
- rhwydweithiau llwyddiannus o arfer broffesiynol yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad a lles disgyblion; a
- bod gweithdrefnau rheoli gwariant yn effeithiol ac yn arwain at godi safonau.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yn y Gymraeg drwy'r ysgol

A2 Paratoi cynlluniau penodol ar gyfer sicrhau datblygiad a pharhad yn y medrau ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau cysondeb yn y defnydd o asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol

A4 Cryfhau'r cynllun datblygu drwy gynnwys camau gweithredu clir a thargedau meintiol i fesur cynnydd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Er bod canlyniadau asesiadau sylfaen y disgyblion adeg dechrau yn yr ysgol ar y cyfan yn isel, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cyffredinol priodol yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol yn llawer o agweddau ar eu gwaith. Mae bron pob disgybl yn weithgar yn ystod y sesiynau, ac yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau. Maent yn gwrando'n briodol yn y dosbarth ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targedau a osodir ar eu cyfer.

Mae medrau llafar y disgyblion yn dda drwy'r ysgol. Maent yn medru sgwrsio'n naturiol gyda'u cyfoedion neu oedolion ac yn medru trafod eu gwaith yn ddeallus gan ddefnyddio iaith safonol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau darllen. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gywir gyda mynegiant priodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallant drafod gwahanol awduron a phrif gymeriadau'r stori. Maent yn medru sôn am y prif ddigwyddiadau yn y storïau y maent wedi eu darllen gyda dealltwriaeth dda. Mae eu medrau cywain gwybodaeth o lyfrau cyfair yn datblygu'n llwyddiannus drwy'r ysgol.

Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion fedrau da mewn rhifedd a llythrennedd, er nad yw'r medrau hyn yn cael eu cymhwyso yn gyson ar draws pob pwnc. Mae bron pob un o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn ysgrifennu'n dda yn Saesneg. Serch hynny, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg, ac nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o'u medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith mewn pynciau eraill ar draws yr ysgol.

Mae disgyblion yn dwyn i gof dysgu blaenorol a'i gymhwyso'n effeithiol i sefyllfaoedd newydd. Mae medrau meddwl y disgyblion yn datblygu'n briodol drwy'r ysgol, er enghraifft wrth drafod emosiynau mewn sesiynau mwytho a chynnal y 'ditectifs meddwl'.

Oherwydd ffactorau megis niferoedd bychain a chanran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal.

Roedd canlyniadau diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 ar y deilliant disgwyliedig yn y medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol yn sylweddol is na'r disgwyliadau o gymharu â'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Ar y deilliant uwch, roedd perfformiad yr ysgol hefyd yn is na phob cymharydd.

O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion. Mae'r ysgol yn y 50% isaf o ran y Gymraeg ac yn y 25% isaf o ran datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol. Nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau disgyblion 11 mlwydd oed tros bedair blynedd yn anwastad. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 mewn Saesneg yn uwch na chyfartaleddau'r teulu mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canlyniadau lefel 4 mewn Cymraeg yn sylweddol is na phob cymharydd dros gyfnod o amser, er bod yna batrwm o gynnydd. Fodd bynnag, mae'r safonau gwaith cyfredol y disgyblion mewn Cymraeg yn uwch na'r canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae canlyniadau ysgrifennu yn y ddwy iaith yn isel dros gyfnod o bedair blynedd. Mae canlyniadau darllen Cymraeg hefyd yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu dros gyfnod.

Mae canlyniadau mathemateg yn dangos patrwm o gynnydd dros gyfnod o dair blynedd ac maent yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae canlyniadau gwyddoniaeth wedi bod yn dirywio dros gyfnod ond wedi codi yn uwch na chyfartaledd y teulu y llynedd.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sy'n hawlio cinio am ddim, yn gyffredinol, mae'r canlyniadau dros gyfnod yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion o ran y Gymraeg, y 50% isaf o ran Saesneg a'r dangosydd pwnc craidd a'r 50% uchaf o ran gwyddoniaeth a mathemateg.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch yn gyffredinol is na phob cymharydd yn y ddwy iaith a gwyddoniaeth. Gwelir cynnydd amlwg yn y tair blynedd ddiwethaf mewn mathemateg. Yn 2012, roedd canlyniadau lefel 5 y disgyblion mewn mathemateg yn uwch na phob cymharydd.

Does dim patrwm amlwg rhwng canlyniadau merched a bechgyn dros gyfnod o bedair blynedd, na rhwng disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r rheini sydd ddim.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni. Mae bron pob disgybl yn gwrtais ac maent yn dangos parch, gofal a phryder tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth glir o beth sydd angen ei wneud i fod yn iach.

Mae lefelau presenoldeb yr ysgol yn anwastad, ond wedi bod yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg am ddwy o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Yn y gwersi, mae bron pob disgybl yn dyfalbarhau â'u tasgau dysgu ac yn ymateb yn bwrpasol i'r oedolion. Mae bron pob plentyn yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol trwy wneud penderfyniadau am agweddau ar fywyd yr ysgol. Maent yn mwynhau eu cyfrifoldebau megis monitro defnydd yr ysgol o ynni. Maent yn weithgar ac yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau megis gweithgareddau amgylcheddol ac adnoddau.

Mae hunanhyder y disgyblion a'u hymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol yn cael eu meithrin yn effeithiol drwy weithgareddau megis perfformio i henoed yr ardal a chasglu sbwriel o gwmpas y pentref.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu priodol a pherthnasol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio rhaglenni gwaith manwl.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o orchmynion pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol i sicrhau darpariaeth sy'n bodloni'r gofynion pynciol mewn modd cytbwys. Darperir nifer o gyfleoedd priodol i ddefnyddio eu medrau llafar. Serch hynny, nid oes cynlluniau bwriadus yn eu lle i sicrhau bod medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn datblygu'n briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o brofiadau da sy'n hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig trwy ymweliadau gan gwmnïau theatr, astudiaethau lleol ac astudiaethau o waith artistiaid Cymreig megis Cefyn Burgess.

Mae dealltwriaeth y disgyblion o fyw'n gynaliadwy a phwysigrwydd hyn yn cael eu hybu'n llwyddiannus trwy gysylltiadau ag ysgol dramor a dysgu am fasnach deg. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang drwy eu gweithgareddau cwricwlaidd, eu cysylltiadau ag ysgol yn Kenya a thrwy sesiynau dysgu gan athrawes sydd wedi addysgu am gyfnod byr yn Lesotho.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ym mhob dosbarth yn gyson dda. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol drwyadl a chyfoes. Maent yn cynllunio dilyniant o weithgareddau cyffrous sy'n sbarduno diddordeb y disgyblion. Er hynny, nid oes digon o her ar brydiau i ymestyn y disgyblion mwyf abl.

Mae athrawon yn gwneud defnydd da o gymorthyddion i roi cymorth ychwanegol i grwpiau ac unigolion penodol. Mae'r staff cefnogi yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y profiadau a gaiff y disgyblion. Mae gan yr athrawon a'r staff cefnogi berthynas waith dda gyda'r disgyblion.

Mae'r strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd, ond dim ond mewn ychydig o achosion y mae sylwadau adeiladol yn cyfeirio at sut i wella'r gwaith.

Mae'r broses o olrhain cynnydd disgyblion drwy'r ysgol wedi ei sefydlu'n gadarn ac mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i adnabod anghenion disgyblion penodol ac i fonitro eu datblygiad.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion a'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r disgyblion a'r rhieni yn cael cyfleoedd priodol i ymateb i'r adroddiadau blynyddol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Ysgol Betws yn gymuned ddiogel, drefnus a gofalgar, lle caiff pawb eu gwerthfawrogi. Mae polisïau a threfniadau priodol yn hyrwyddo byw yn iach a lles yn llwyddiannus. Yn y dosbarth ac yn allgyrsiol, caiff disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd yn eu galluogi i fyw mewn ffordd iach.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn darparu yn briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gynhwysiant a sicrhau lles disgyblion. Mae disgyblion yn deall pwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd ac mae gan yr ysgol strategaethau i hybu hyn. Mae strategaethau clir ar gyfer hyrwyddo ymddygiad yn eu lle. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion unigol. Mae'r ysgol yn defnyddio data yn dda i nodi'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cwrdd ag anghenion grwpiau o ddysgwyr penodol yn llwyddiannus ac yn gryfder yn yr ysgol. Mae cynlluniau addysg unigol cynhwysfawr ar eu cyfer a systemau ymyrraeth effeithiol i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd yn unol â'u targedau. Mae'r cynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Gwneir defnydd effeithiol o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, cymdeithasol a lles i gefnogi unigolion. Mae'r trefniadau yn bodloni gofynion statudol yn llawn.

Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn ateb gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos a chroesawgar. Mae'r ethos cefnogol yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn yn effeithiol.

Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ddangos parch, gofal a phryder tuag at eu hunain ac eraill, ac mae ganddynt berthynas dda gyda'u cyfoedion a'r holl aelodau staff. Mae'r ysgol yn ystyried cefndiroedd amrywiol y disgyblion yn effeithiol.

Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol yn llwyddiannus drwy raglenni addysg bersonol a chymdeithasol a thrwy hyrwyddo gwerthoedd personol a chymdeithasol yn llwyddiannus.

Mae digon o adnoddau sy’n gweddu’n briodol i anghenion y disgyblion, a gwna’r athrawon ddefnydd effeithiol ohonynt. Mae’r amgylchedd dysgu ym mhob dosbarth yn lliwgar, yn symbylus ac yn dathlu ymdrechion y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio’n effeithiol ac yn cael eu cynnal a chadw yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer codi safonau a sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl. Mae wedi cyfleu ei gweledigaeth yn llwyddiannus i’r staff a’r llywodraethwyr. Yn y cyfarfodydd staff wythnosol, mae ffocws clir a phriodol ar faterion craidd ysgol megis gwella safonau a darpariaeth ar gyfer y disgyblion. Llwydda’r arweinyddion i greu ethos ysgol lle mae’r disgyblion a’r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae rôl monitro’r arweinyddion yn datblygu’n briodol ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol. Enghraifft fuddiol o effaith y gwaith monitro yw’r gwelliannau ar lawr y dosbarth ar draws yr ysgol. Mae’r cydlynwyr wedi paratoi proffiliau yn cynnwys enghreifftiau o waith y disgyblion, sydd o gymorth iddynt fonitro safonau cyrhaeddiad trwy’r ysgol.

Mae’r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr yn rheolaidd gan y pennaeth. Maent yn ymwybodol o’r cryfderau a’r meysydd i’w datblygu yn yr ysgol. Mae rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol yn datblygu’n briodol. Maent yn gefnogol iawn ac yn cyflawni eu gwaith yn gydwybodol.

Llwydda’r ysgol i dalu sylw priodol i’r blaenoriaethau cenedlaethol megis codi safonau llythrennedd a rhifedd. Mae’r strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu’n briodol trwy’r ysgol. Mae’r arweinyddion yn talu sylw priodol i ddatblygu medrau meddwl y disgyblion. Gwelir datblygiad cynyddol yng ngallu’r disgyblion i ddefnyddio gwybodaeth flaenorol i ddatrys problemau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae adroddiad hunanarfarnu’r ysgol yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu mwyafrif o’r cryfderau a’r meysydd i’w datblygu. Mae gan yr athrawon a’r llywodraethwyr wybodaeth dda am gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu. Serch hynny, nid yw’r broses hunanarfarnu yn rhoi digon o ystyriaeth i safbwyntiau’r disgyblion, holl aelodau’r staff na’r rhieni.

Mae trefniadau monitro’r ysgol yn datblygu’n raddol ac yn dechrau cyfrannu at y broses o hunanarfarnu. Y pennaeth sydd yn bennaf gyfrifol am fonitro holl waith yr ysgol ac nid yw rôl y cydlynwyr yn monitro ansawdd yr addysgu a chraffu ar waith y disgyblion wedi datblygu’n llawn. Er hynny, mae’r ychydig adroddiadau monitro diweddar yn dangos yn gywir beth yw cryfderau’r ysgol ac yn nodi’r camau er mwyn gwelliant yn glir.

Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth o'r hunanarfarnu i osod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella. Mae'r blaenoriaethau yn cael eu cefnogi trwy ddyrannu'r cyllid a'r adnoddau dynol yn briodol. Serch hynny, nid yw llawer o'r gweithgareddau na'r targedau yn ddigon penodol ac o ganlyniad nid yw'n hawdd mesur cynnydd bob amser.

Mae rhwydweithiau llwyddiannus o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad a lles bron pob disgybl. Dwy enghraifft fuddiol yw'r rhwydwaith fathemateg a'r rhwydwaith 'mwytho a chynnal'.

Er nad yw'r trefniadau hunanarfarnu wedi eu datblygu'n llawn hyd yma, mae ansawdd y ddogfen hunanarfarnu a'r blaenoriaethau gwella priodol sydd wedi eu pennu yn sail gadarn i'r ysgol ar gyfer codi safonau ymhellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau agos rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin sydd ar y safle. Mae'r cydweithio helaeth yn sicrhau bod bron pob disgybl yn ymgartrefu'n hapus i ddosbarth derbyn yr ysgol.

Ceir cydweithio buddiol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd. Mae'r trefniadau yn cyfrannu'n dda at sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n hyderus yn yr ysgol uwchradd. Mae'r cynllun 'Awyr las' sydd yn bodoli rhwng ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd yn ymateb yn llwyddiannus i ofynion disgyblion abl a thalentog yr ysgol.

Mae cydweithio effeithiol rhwng yr ysgol ag asiantaethau perthnasol i sicrhau ymatebion i unrhyw dangyflawni yn sgil anfanteision cymdeithasol. Gwneir defnydd o arbenigedd seicolegydd addysg, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth cynnal ymddygiad fel bo'r angen. Mae'r partneriaethau hyn yn gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau safonau da lles a chynnydd disgyblion penodol.

Mae trefniadau safoni a chymedroli ar y cyd gyda'r ysgolion lleol yn effeithiol ac yn cyfrannu'n fuddiol at sicrhau cysondeb yn lefelu gwaith y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a staff cymorth arbenigol a phrofiadol i ymdrin â phob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o'r staff cymorth i gefnogi'r grwpiau ymyrraeth. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles unigolion penodol a grwpiau o ddisgyblion.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles y disgyblion. Caiff y gwariant ei fonitro'n effeithiol gan y pennaeth a'r corff llywodraethol.

Gwna'r athrawon ddefnydd priodol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian o ystyried cynnydd y rhan fwyaf o'r disgyblion.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Oherwydd ffactorau megis niferoedd bychain a chanran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion saith oed a oedd yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg, yr awdurdod lleol a Chymru. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch, sef 'Deilliant 6', hefyd yn is na phob cymharydd.

Wrth gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen, sef cyfuniad o'r canlyniadau, yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion. Mae'r ysgol yn y 50% isaf o ran y Gymraeg ac yn y 25% isaf o ran datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol.

Yn asesiadau 2012, nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau disgyblion 11 mlwydd oed tros bedair blynedd yn anwastad. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (lefel 4 mewn cyfuniad o'r canlyniadau mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 mewn Saesneg hefyd yn uwch na chyfartaleddau'r teulu mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae canlyniadau lefel 4 mewn Cymraeg yn sylweddol is na phob cymharydd dros gyfnod o amser, er bod yna batrwm o gynnydd. Mae safonau ysgrifennu yn y ddwy iaith yn isel dros gyfnod o amser. Mae canlyniadau darllen Cymraeg hefyd yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu dros gyfnod. Mae canlyniadau mathemateg yn dangos patrwm o gynnydd dros gyfnod o dair blynedd ac maent yn uwch na'r teulu yn y ddwy flynedd ddiwethaf, er bod y canlyniadau yn is na chyfartaledd Cymru dros yr un cyfnod. Mae canlyniadau gwyddoniaeth wedi bod yn dirywio dros gyfnod ond wedi codi yn uwch na'r teulu y llynedd.

O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sy'n hawlio cinio am ddim, mae'r canlyniadau hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion o ran y Gymraeg, y 50% isaf o ran Saesneg a'r dangosydd pwnc craidd, y 50% uchaf o ran gwyddoniaeth a'r 25% uchaf o ran mathemateg.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch, sef lefel 5, yn gyffredinol is na phob cymharydd yn y ddwy iaith a gwyddoniaeth. Gwelir cynnydd amlwg yn y tair

blynedd ddiwethaf mewn mathemateg.  Y llynedd, roedd canlyniadau lefel 5 y disgyblion mewn mathemateg yn uwch na phob cymharydd.

Nid oes patrwm amlwg rhwng canlyniadau merched a bechgyn dros gyfnod o bedair blynedd, na rhwng disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a gweddill y garfan.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 25 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ac mae pob un yn cytuno:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i aros yn iach;
- bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd;
- bod gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol;
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith; a
- bod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae'r mwyafrif yn teimlo bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr**

Derbyniwyd 25 o ymatebion i'r holiaduron gan rieni ac roedd pob un yn cytuno, neu'n cytuno'n gryf:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plant yn hoffi'r ysgol;
- bod eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda;
- bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod y staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol;

- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant;
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Roedd bron pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae canrannau'r ymatebion cadarnhaol i'r holiaduron disgyblion a rhieni yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Michael Hayes | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Helen Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catrin James | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.